**Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | **Aelodau** | |
| | Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| | Nicholas Bourne | Ceidwadwyr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| | Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| | Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| | John Griffiths | Llafur: Dwyrain Casnewydd |
| | Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| | Jonathan Morgan | Ceidwadwyr: Canol De Cymru |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| | **Gwahoddedigion Sefydlog** | |
| | Eluned Morgan | Aelod o’r Senedd Ewropeaidd |

| | |
|---|---|
| Jos Gallagher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Ei Ardderchogrwydd Lode Willems | Llysgennad Gwlad Belg |
| Geoffrey Martin | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn y DU |
| Jackie Brown | Pennaeth Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| Des Clifford | Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel |
| Gary Davies | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Elisabeth Jones | Uwch Gwnsler y Cynulliad, Cyfansoddiad, Tîm Hawliau Dynol ac Ewropeaidd |
| Dennis Turner | Masnach Ryngwladol Cymru |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc Dros Dro y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd yn arbennig o falch i groesawu Ei Ardderchogrwydd Lode Willems, Llysgennad Gwlad Belg, a fyddai'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer Llywyddiaeth Gwlad Belg o'r Undeb Ewropeaidd i'r Pwyllgor. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan aelodau'r Cynulliad Val Feld ac Elin Jones, Catherine Eva, Dr Rose D'Sa, George Wright, ac ASE Jill Evans, Jonathan Evans, Eurig Wyn a Glenys Kinnock.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Llywyddiaeth Gwlad Belg o'r Undeb Ewropeaidd**

**Cyflwyniad gan Ei Ardderchogrwydd Lode Willems, Llysgennad Gwlad Belg**

1.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y Llysgennad, Ei Ardderchogrwydd Lode Willems, Geoffrey Martin, Syr John Gray, Cwnsler Gwlad Belg yng Nghaerdydd a Francis de Sutter, y Gweinidog Gynghorydd yn Llysgenhadaeth Gwlad Belg. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith y gallai Llywyddiaeth Gwlad Belg fod o ddiddordeb arbennig i Gymru oherwydd natur unigryw cyfundrefn Gwlad Belg sydd â chydbwysedd rhwng cyfrifoldebau

Llywodraeth Ffederal a Rhanbarthol.

1.2 Diolchodd y Llysgennad y Pwyllgor am y cyfle i ddod i siarad â hwy. Fel cynrychiolydd Llywodraeth Gwlad Belg roedd wedi siarad hefyd â Senedd yr Alban a Senedd Gogledd Iwerddon. Byddai ymweliadau o’r fath yn hanfodol er mwyn hysbysu Llywyddiaeth Gwlad Belg o bryderon pobl Ewrop.

> Daw Llywyddiaeth Gwlad Belg ar adeg bwysig ym mhroses integreiddio Ewrop. Mae’r Undeb wedi gosod nod iddi ef ei hun o greu ardal o ryddid, diogelwch a chyfiawnder, yn ogystal ag ardal lle y mae ansawdd bywyd, diogelwch bwyd, diogelu’r amgylchedd a datblygiad cynaliadwy yn ganolog.

1.4 Mae gan Lywodraeth Gwlad Belg ymrwymiad cadarn i egwyddorion ffederaliaeth a datganoli. Ni fyddai ar unrhyw adeg, fodd bynnag, yn camddefnyddio’r Llywyddiaeth i ddilyn ei agenda genedlaethol neu ei fuddiannau ei hun. Y Llywyddiaethau mwyaf llwyddiannus oedd y rheini a weithiodd fel partneriaeth gyda aelod wladwriaethau, y Comisiwn Ewropeaidd, a’r Senedd Ewropeaidd.

1.5 Roedd y rhaglen ar gyfer Llywyddiaeth Gwlad Belg yn cynnwys pedair prif thema:

- Diffinio’r fframwaith ar gyfer y ddadl ar ddyfodol Ewrop. Gallai methu ag ehangu a dyfnhau’r Undeb, ar yr un pryd, beri diffyg datblygiad ac i’r Undeb gael ei wrthod o bosibl. Mae’n rhaid parhau i ddadlau dros Ewrop fel menter gyffredin, drwy greu ffurflywodraeth newydd. Gyda hyn mewn golwg byddai Llywyddiaeth Gwlad Belg yn gweithio tuag at Ddatganiad uchelgeisiol o Frwsel-Laken, a fyddai’n gosod y ffiniau ar gyfer dadl ‘Dyfodol Ewrop’ gan arwain at y Gynhadledd Rhynglywodraethol yn 2004.
- Materion polisi mewnol megis; cyflwyno’r Ewro; moderneiddio nawdd cymdeithasol a chynaladwyedd pensiynau, a gweithio tuag at bolisi cyffredin ar fewnfudo a cheisio lloches
- Datblygu’r broses ehangu.
- Pwysleisio rôl Ewrop mewn materion rhyngwladol a pharhau â’r gwaith ar Bolisi Diogelwch ac Amddiffyn Ewrop gyda’r nod o gyflawni Llu Ymateb Cyflym cadarn o 60,000 erbyn 2003.

1.6 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Mae angen herio’r amgyffrediad bod yr Undeb Ewropeaidd yn bell a’i fod yn gwrthwynebu buddiannau cenedlaethol. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, mae angen i sefydliadau democrataidd yr UE ddangos fwy o allu i gysylltu’n uniongyrchol â phobl Ewrop. Roedd gan sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol rôl fawr i’w chwarae yn y broses hon.
- Ystyriwyd yn bwysig nad dim ond gosod ffiniau meysydd cymwys a ddylai gael ei drafod yn y ddadl ar ddyfodol Ewrop. Byddai dadl o’r fath ond yn arwain at ddiffyg datblygiad a byddai’n atal datblygiad angenrheidiol yr Undeb Ewropeaidd a pholisïau.
- Dim ond lle na fyddai NATO yn gysylltiedig y dylai’r Llu Amddiffyn Ewropeaidd arfaethedig weithredu. Byddai hyn yn osgoi dyblygu ymdrech gan roi rhywfaint o awtonomiaeth i’r Undeb Ewropeaidd dros y materion hyn ar Gyngres Unol Daleithiau America. Ymhellach, roedd yn bwysig fod Ewrop yn gallu rheoli cytundebau iechyd ar ei dir ei hunan lle nad yw UDA yn gysylltiedig.
- Cafwyd rhywfaint o siom ynglŷn â’r rôl gyfyngedig i Bwyllgor y Rhanbarthau a’i fethiant i ddatblygu y tu hwnt i statws ymgynghorol
- Byddai’r Llywyddiaeth yn anelu at greu cynigion cadarn er mwyn sicrhau cynaladwyedd y Polisïau

Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd Cyffredin erbyn Gorffennaf 2002

- Roedd datganiad y saith rhanbarth cyfansoddiadol yn Fflandrys, a oedd yn gofyn am gael cyfrannu'n llawn at y paratoadau ar gyfer y Gynhadledd Rhynglywodraethol yn 2004, yn ddatblygiad calonogol. Rhoddodd gyfle i Gymru ryngweithio ar lefel ranbarthol er mwyn cyflawni amcanion cyffredin. Cafwyd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â statws Cymru fel 'rhanbarth cyfansoddiadol' am nad oes cyfansoddiad ysgrifenedig gan y DU ond caniataodd hyn rywfaint o hyblygrwydd a fu o fantais i Gymru.
- Pan oedd Cyngor y Gweinidogion yn ystyried materion datganoledig, mae system Gwlad Belg yn caniatáu Gweinidogion y rhanbarthau datganoledig i gwrdd ac i benderfynu ar yr ymateb priodol. Lle na ellir dod i benderfyniad, bydd y Prif Weinidogion Rhanbarthol yn cwrdd â Phrif Weinidog San Steffan er mwyn dod i gytundeb.

1.7 Diolchodd y Llysgennad y cadeirydd a'r aelodau am y cyfle i ddod i siarad â hwy ac, yn bwysicach, i wrando ar eu safbwyntiau ar ddatblygiadau o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Amgaeir testun llawn araith y Llysgennad fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

**Papur EUR 04-01(p1)**

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig, gan ddechrau â chywiriad. Oherwydd salwch, nid oedd modd i David Byrne, y Comisiynydd dros Iechyd a Diogelwch y Defnyddwyr gwrdd â Jane Hutt ar 25 Mehefin. Yn hytrach, cyfarfu hi â Martin Power, Chef du Cabinet Mr Byrne.

1. Roedd Conswl Cyffredinol Gweinyddiaeth Iwerddon, Mr Conor O'Reardon, yn awyddus i wahodd aelodau'r Pwyllgor a swyddogion i ginio yn swyddfa'r conswl i drafod cefndir pleidlais 'Na' Iwerddon ar refferendwm Uwchgynhadledd Nice. Roedd swyddogion yn ceisio dod o hyd i'r dyddiad mwyaf cyfleus ar gyfer y digwyddiad hwn.
1. Manteisiodd y Dirprwy Brif Weinidog ar y cyfle i hysbysu'r Pwyllgor o gyhoeddiad a wnaed heddiw mewn perthynas â Chymorth Grant Ewropeaidd sy'n cwmpasu gweithwyr dur Corus a gollodd eu swyddi. £5.3 miliwn oedd y cyfanswm, yn cynnwys arian cyfatebol, a Corus oedd y brif ffynhonnell o'r arian hwn. Roed hyn yn cynnwys £1, 562,000 o arian amcan 3 ar gyfer Llanwern a Shotton a £749,000 o arian amcan 1 ar gyfer Bryngwyn, Glyn Ebw a Phort Talbot. Byddai'r arian hwn yn darparu ar gyfer deuddeg wythnos o hyfforddiant cyn adleoli ar gyfer gweithwyr yr effeithiwyd arnynt.
1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Lle yr oedd Gweinidogion y Cynulliad yn cymryd yr awenau yn nirprwyaethau'r DU i Gyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd, roedd y graddau y gallent gyflwyno ymagwedd Gymreig unigryw yn hytrach na dilyn briff y DU yn wrth-gymesur â'r galluoedd Ewropeaidd a oedd yn berthnasol i'r pwnc o dan ystyriaeth.
- Bu methiant uwchgynhadledd Gothenburg i gadarnhau'r targedau a'r amserlen a amlinellwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a'r Senedd ar ddatblygu cynaliadwy yn siomedig. Ymrwymodd y Cadeirydd i

ysgrifennu i Lywodraeth y DU er mwyn cael eu safbwyntiau ar fethiant yr uwchgynhadledd i ddod i gytundeb, ac i gyflwyno adroddiad ar yr adborth i'r Pwyllgor. Pwysleisiodd fod yr angen i ddod i gytundeb rhwng dau safbwynt gwahanol, o reidrwydd, yn cynnwys cyfaddawdu.
- Barnwyd bod y Gynhadledd 'White Eagle, Red Dragon – Poland and Wales: Partners in an enlarged EU' yn ddigwyddiad hynod o lwyddiannus a allai roi model ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

**Eitem 3 ar yr agenda: Gweithgor ar Ehangu**

**Papur EUR 04-01(p2)**

1. Cyflwynodd Jackie Brown y papur a oedd yn amlinellu'r cylch gwaith drafft ar gyfer y Gweithgor ar y mater hwn a gynigwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor.
1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Roedd yn bwysig cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid wrth drafod y mater hwn. Ystyriwyd ei bod yn arbennig o bwysig i ennyn diddordeb o fewn y sector preifat ym manteision posibl ehangu
- Dylid ychwanegu TUC Cymru at y rhestr o'r rhai a fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan
- Gallai'r Gweithgor fod yn fodd defnyddiol i gysylltu'r agwedd wleidyddol ar ehangu â'r manteision masnachol posibl i gwmnïau Cymreig a mynediad i'r rhaglenni 'gallu' megis cronfeydd megis PHARE a TACIS.
- Mae MasnachCymru Rhyngwladol yn ceisio manteisio ar gyfleoedd yng nghanol a dwyrain Ewrop ar gyfer cydfentrau neu drosglwyddo gweithrediadau technoleg sy'n tueddu i fod yn fwy addas i amodau'r farchnad nac allforion traddodiadol.
- Disgwylir i'r Gweithgor gyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor gydag argymhellion cadarn mewn perthynas â'r ymagwedd wleidyddol y dylai'r Cynulliad ei mabwysiadu ar fater gefeillio, yn cynnwys cynllun gweithredu ac amserlen

1. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad i sefydlu'r Gweithgor gyda rheolwyr y pleidiau yn penderfynu ar aelodaeth y pleidiau ynghyd ag aelod o TUC Cymru.

**Eitem 4 ar yr agenda: Cyfarfod ym Mrwsel**

**Papur EUR 04-01(p3)**

4.1 Roedd y cyfarfod yn cydnabod mai dim ond ar ddydd Mercher y gellid trefnu'r cyfarfod ym Mrwsel ond ystyriwyd y byddai llai o wrthdaro o ran amser pe bai bob yn ail ddydd Mercher yn cael ei ddewis ar gyfer cynnal cyfarfod rhwng y pwyllgorau Datblygu Economaidd, Addysg a'r Amgylchedd. Cydnabu'r Pwyllgor hefyd ei bod yn bwysig i'r Cadeirydd fod yn bresennol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ganfod a oedd dydd Mercher arall lle y byddai ASE a Phrif Weinidog Cymru ar gael.

**Eitem 5 ar yr agenda: Cynrychiolaeth Swyddogol Cymru ar Fora Ewropeaidd**

**Papur EUR 05-01(p4)**

1. Cyflwynodd Des Clifford y papur gwybodaeth y gofynnwyd amdano yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor.
1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Cytunodd yr aelodau i wahodd y Trefnydd i gyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor ar waith Rhwydwaith y Tele Rhanbarthau
- Nodwyd bod Cynhadledd y Rhanbarthau Perifferol ac Arforol yn ystyried cais y Cynulliad am aelodaeth ar 3 Gorffennaf. Gofynnodd aelodau i nodyn gael ei gynhyrchu a’i ddosbarthu i’r aelodau cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn amlinellu’n fanylach sut y dylid gweithredu aelodaeth y Cynulliad.

1. Nododd y Pwyllgor y papur.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Rhaglen Efeillio**

**Papur EUR 04-01(p5)**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur gwybodaeth gefndirol y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf.
1. Nododd y Pwyllgor y papur

**Eitem 7 ar yr Agenda: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

**Papur EUR 04-01(p6)**

1. Dywedodd John Griffiths fod Pwyllgor y Rhanbarthau wedi cynnal un cyfarfod llawn, ar 13-14 Mehefin ers y cyfarfod diwethaf. Rhoddodd hyn gyfle i gynrychiolwyr Gwlad Belg amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer y Llywyddiaeth nesaf. Yn ogystal, ystyriodd ddau fater a oedd o ddiddordeb arbennig i Gymru; newydd-ddyfodiaid i ffermio a dysgu gydol oes.

7.2 Gofynnwyd am eglurder ar ymagwedd y Comisiwn Ewropeaidd ar gymorth gwladol i’r rhai yr effeithiodd argyfwng clwy’r traed a’r genau arnynt. Ymrwymodd y Dirprwy Brif Weinidog i gael yr eglurder hwnnw a’i ddosbarthu i aelodau

7.3 Cyflwynodd Des Clifford y papur a oedd yn cynnwys adroddiadau ysgrifenedig gan ASE Cymru. Nodwyd bod Jonathan Edwards yn Beijing ar fusnes Seneddol ond y byddai ei adroddiad yn cael ei ddosbarthu i’r aelodau cyn gynted ag y byddai ar gael.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd gweithio â’r ASE i gefnogi cais Caerdydd i ddod yn Ddinas Ddiwylliant Ewropeaidd. Fel Cyfarwyddwr Bwrdd Rheoli’r cais, ymrwymodd Rhodri Glyn Thomas i hysbysu’r Pwyllgor yn rheolaidd o unrhyw ddatblygiadau
- Byddai’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cymryd yr awenau ar faterion a oedd yn ymwneud â Rhaglen URBAN II, y datganodd y Comisiwn yn ddiweddar ei bod yn 'dderbyniol’ gan nodi y byddai

trafodaethau gyda thîm Wrecsam yn cychwyn yn fuan.

- Cafwyd trafodaeth ar y Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Ymlosgi Mawr, a mynegwyd rhywfaint o bryder, drwy geisio rhan-ddirymiad, y byddai'n ymddangos fel pe bai'r Cynulliad yn annog gweithrediad gorsafoedd per 'budr' yn Nwyrain Ewrop. Cafwyd safbwyntiau gwahanol ar oblygiadau'r gyfarwyddeb ond cafwyd cytundeb ar yr angen, ac ar ddilysrwydd diogelu dyfodol Gorsaf B⎣ er Aberthaw, ac yn gysylltiedig â hynny, Pwll Glo Tower. Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu copi o'r cyngor yr oedd ei ddatganiad yn y cyfarfod llawn y diwrnod blaenorol yn seiliedig arno.

**Eitem 8 ar yr agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur: EUR 03-01(min)**

1. Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gyda mân ddiwygiad. Yn 2.1, pwynt cyntaf ar linell 4, dileer 'could usefully be followed by others' a rhodder 'should be followed by officials in preparing advice for the Committee'

8.2 **Pwyntiau i weithredu arnynt neu i'w hystyried ymhellach**

<u>Uwchgynhadledd Gothenburg</u>

Y Prif Weinidog i ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar y methiant i ddod i gytundeb ar dargedau cynaladwy yn Uwchgynhadledd Gothenburg

<u>Gweithgor Ehangu</u>

Cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf gyda chynllun gweithredu ac amserlen ar gyfer ymagwedd y Cynulliad at efeillio

<u>Rhwydwaith Tele Rhanbarthau</u>

Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu i'r E Weinidog gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar waith y Rhwydwaith Tele Rhanbarthau

<u>Cynhadledd Rhanbarthau Perifferol ac Arforol</u>

Swyddogion i ddarparu papur ar drefniadau ar gyfer aelodaeth o Gynhadledd Rhanbarthau Perifferol ac Arforol cyn y cyfarfod nesaf

<u>Clwy'r Traed a'r Genau</u>

Y Dirprwy Brif Weinidog i ddosbarthu ymateb y Comisiwn ar Gymorth Gwladol i ardaloedd yr effeithiodd argyfwng clwy'r traed a'r genau arnynt

Cyfarwyddeb ar Weithfeydd Ymlosgi Mawr

Y Prif Weinidog i ddarparu copi o gyngor i'r Pwyllgor

Cyfarfod ym Mrwsel

Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu dyddiad arall ar gyfer y cyfarfod ym Mrwsel

Adroddiad ASE

Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu adroddiad Jonathan Evans ASE ar ôl derbyn yr adroddiad

-

-

-